Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf

01/07/2013

Yn dilyn fy neges e-bost dyddiedig 14 Mehefin 2013, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 9 Mehefin 2013, sef:

Hoffwn gael gwybodaeth am yr ymchwiliadau a gynhaliwyd i Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a fu'n destun ymchwiliadau ariannol.
Faint o'r fath bartneriaethau y canfuwyd eu bod yn amheus?
Faint sydd wedi'u hatal dros dro?
A gafwyd unrhyw erlyniadau o ganlyniad i'r ymchwiliadau?
Yn benodol, hoffwn gael gwybodaeth am Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Cwmaman yng Nghwm Cynon?
A oes unrhyw un wedi'i erlyn?

Gofynnodd fy neges e-bost dyddiedig 14 Mehefin 2013 i chi egluro eich cais, ond am nad wyf wedi derbyn unrhyw eglurhad gennych, rwyf wedi tybio'r canlynol:

O ran eich diffiniad o "ymchwiliadau a gynhaliwyd i Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a fu'n destun ymchwiliadau ariannol", rwyf wedi tybio eich bod yn golygu ymchwiliadau a gynhaliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru neu'r archwilydd penodedig i Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf sydd wedi arwain at adroddiad cyhoeddedig neu adroddiad a gyflwynwyd i gorff a archwilir. Hefyd, o ran eich cyfeiriad at "amheus", oherwydd eich cyfeiriad dilynol at "erlyniadau", rwyf wedi tybio eich bod yn ceisio gwybodaeth ynglŷn ag a yw ymchwiliad i Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf wedi peri i chi amau bod gweithgareddau troseddol, o bosibl, wedi'u cyflawni.

Os yw'r naill dybiaeth neu'r llall yn anghywir, rhowch wybod i mi.

Yr unig ymchwiliad sy'n cyd-fynd â chwmpas eich cais yw'r un sy'n ymwneud â Chymunedau yn Gyntaf Plas Madoc. Dyma'r ddolen i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol

Mae paragraff 14 o'r adroddiad uchod yn nodi bod Bwrdd Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc wedi penderfynu y dylid gwahardd dau aelod o staff dros dro, tra'n aros am ganlyniad ymchwiliadau dilynol.

Mae'n hysbys i'r cyhoedd bod cyn-gydgysylltydd Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc wedi'i anfon i'r carchar am dwyllo Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc. Gweler y ddolen ganlynol:
http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-north-east-wales-16109857

Nid ydym yn cadw unrhyw wybodaeth sy'n cyfateb i ddisgrifiad eich cais o ran Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf Cwmaman.

Nid wyf wedi defnyddio unrhyw eithriadau, fodd bynnag os hoffech gwyno am y ffordd rwyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost neu lythyr ataf.

Mae croeso i chi gysylltu â mi hefyd os oes gennych unrhyw ymholiadau.

Yn gywir
Ian Phillips